



Sblish, Splash, Symud Sbwriel!

Amcanion dysgu:

Archwilio dŵr, gwrthrychau ac offer syml trwy chwarae synhwyraidd, ymarferol.

Dechrau datblygu sgiliau echddygol mân trwy afael, gwasgu, rhofio a throsglwyddo gwrthrychau gan ddefnyddio gefeiliau neu'r dwylo.

Dechrau deall nad yw sbwriel i fod yn y dŵr ac y gallwn helpu i gadw lleoedd yn lân.



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy





Gwybodaeth ymarferydd

Gall sbwriel fod yn niweidiol iawn i afonydd, gan fod gwynt a glaw yn aml yn cario sbwriel i ddraeniau, afonydd a nentydd ac yn y pen draw i'r môr. Gall plastig, lapio, caedau poteli a gwastraff arall wneud dŵr yn fudr ac yn anniogel i anifeiliaid y môr, a allai geisio ei fwyta neu fynd yn sownd ynddo.


I blant, dylid cyflwyno hyn yn ysgafn trwy ymadroddion ailadroddus fel, “Nid yw sbwriel yn perthyn i'r dŵr,” a “Gallwn ni helpu trwy ei roi yn y bin.”



Gweithgaredd

Yn y gweithgaredd hwn, mae plant yn ymarfer tynnu sbwriel o'r dŵr trwy afael, codi a throsglwyddo gwrthrychau gan ddefnyddio gefel, sgwpiau, cwpanau neu eu dwylo, yn dibynnu ar eu cyfnod datblygu.

Mae hyn yn cefnogi cryfder dwylo cynnar, cydlynad a chanolbwyntio, tra hefyd yn cyflwyno negeseuon amgylcheddol syml mewn ffordd sy'n briodol.





Beth fydd ei angen

- Twb dŵr
- Dŵr
- Gefeiliau sy'n addas i blant, cwpanau a rhidyllau bach
- Cynhwysydd wedi ei labelu neu ei gyflwyno fel y “bin”
- Tywelion
- Dewisol: teganau creaduriaid y môr, cregin, cerrig mân neu ddeunydd glas o amgylch yr hambwrdd



Syniadau sbwriel diogel ar gyfer yr twb:

- Poteli plastig glân
- Potiau iogwrt glân neu dybiau plastig bach
- Stribedi o ddeunydd pecynnu bwyd glân torrwch yn fawr heb unrhyw ochrau miniog
- Papur wedi ei grensian neu gerdyn
- Darnau glân o ffoil wedi eu crensian yn beli mawr
- Darnau sgrap o ffabrig i gynrychioli bagiau neu bapurau lapio



Gosod y gweithgaredd i fyny:

Gosodwch twb o ddŵr bas gyda nifer fach o eitemau “sbwriel” glân yn arnofio yn y dŵr.

Rhowch wahoddiad i'r plant archwilio'r twb a chodwch un darn o sbwriel i fyny gyda gefeiliau, sgŵp neu eich dwylo. Rhowch ef i mewn i'r bin a defnyddiwch iaith syml fel, “sbwriel yn y bin,” a “dŵr glân.”

Anogwch y plant i gymryd eu tro yn tynnu'r sbwriel. Os nad yw'r plant yn barod i ddefnyddio gefeiliau eto, rhowch gymorth iddyn nhw ddefnyddio eu dwylo, cwpan neu sgŵp fel bod pob plentyn yn gallu cymryd rhan yn llwyddiannus.



Awgrymiadau iaith:

Dangoswch y weithred yn araf: “casglu”, “codi” ac “yn y bin.”

Defnyddiwch ymadroddion byr, ailadroddus, fel: “dŵr budr”, “ei dynnu allan”, ac ‘yn lân eto.”

Enwch wrthrychau: “potel” “papur,” “papur lapio,” “twba.”

Dathlwch ymdrech: “da iawn, fe wnes di helpu’r dŵr!” “Tîm Taclus!”



Elfennau ychwanegol dewisol i wella’r gweithgaredd:

Ychwanegwch un diferyn o baent du neu wyrdd i’r dŵr i’w wneud i edrych yn fudr, yna siaradwch am y ffordd y mae’n fwy anodd gweld y sbwriel pan fydd y dŵr yn fudr.

Ychwanegwch deganau creaduriaid y môr a gwahoddwch y plant i “helpu’r pysgod” trwy dynnu’r sbwriel allan o’u dŵr nhw.

Cynigiwch ddiidoli’r tybiau ar gyfer plant hŷn, fel “papur” a “plastig”, gan ddefnyddio lluniau neu liwiau yn hytrach na labeli ysgrifenedig.

Ailadroddwch y gweithgaredd ar ddiwrnod arall gyda llai o eitemau wedi eu cuddio o dan swigod neu ddail sy’n arnofio i annog chwilio a datrys problemau.

